Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Penodi Aelod Annibynnol

Dyddiad cau: 3 Chwefror 2022

The Commissioner for Public Appointments

Cynnwys

	Tudalen
Gwneud Cais	**3-4**
Atodiad A: Rôl y Cadeirydd/Aelod	**5-8**
Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Addysg a Gwella Iechyd Cymru	**9-10**
Atodiad C: Y broses ddethol	**11-12**

Gwneud cais

Diolch am eich diddordeb ym mhenodiad Aelod Annibynnol i Fwrdd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Bydd gofyn i'r Aelod Annibynnol gymryd rhan fel aelod llawn o'r Bwrdd gan osod y strategaeth ar gyfer y sefydliad. Yn ogystal, bydd disgwyl i chi herio'n adeiladol, cyfranogi'n weithredol ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd a chraffu ar berfformiad y Weithrediaeth wrth fodloni nodau ac amcanion cytunedig.

Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion am rôl yr Aelod Annibynnol a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau AaGIC a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-en-GB/mobile-0/appcentre-3/brand-2/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/.

I wneud cais am y swydd hon, cliciwch ar y swydd wag ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf i chi wneud cais am swydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Unwaith y byddwch wedi cofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen i chi uwchlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros wneud cais' ar y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol
Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi sydd i benderfynu sut rydych chi'n dewis cyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich swyddogaeth chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn fwy na dwy dudalen. Mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod os bydd eich datganiad yn hirach na hyn. Mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod os bydd eich datganiad yn hirach na hyn.

CV
Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y rôl. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Geirdaon
Rhowch ddau ganolwr (cyflogwr a phersonol) y gallwn gysylltu â hwy i ofyn am eirda. Dim ond ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus y byddwn yn gwneud hyn.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	3 Chwefror 2023
Llunio rhestr fer:	Canol Chwefror
Cyfweliadau:	Diwedd Chwefror

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Croesewir ceisiadau yn arbennig gan bob grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl o dan 30 oed, pobl ag anableddau, pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd, a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, lle cydnabyddir bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gweithredu i analluogi pobl sydd ag amhariadau neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall yr holl staff berfformio ar eu gorau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu cyfweld ag unrhyw un sy'n anabl y mae ei gais yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol ar gyfer pob cymhwysedd. Mae'n rhaid ichi hefyd feddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Os hoffech gael cyfweliad gwarantedig, cysylltwch â
penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

Cysylltiadau:

Am ragor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Tîm Penodiadau Cyhoeddus
Uned Cyrff Cyhoeddus
E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl AaGIC a'r swydd Aelod Annibynnol, cysylltwch â Chris Jones, Cadeirydd AaGIC:

E-bost: Chris.D.V.Jones2@wales.nhs.uk

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus ar penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Atodiad A

Penodi Aelod Annibynnol i Gwella Addysg Iechyd Cymru (AaGIC)

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Mae hwn yn gyfle gwych i ddefnyddio eich sgiliau a'ch profiad i gefnogi dull strategol o ddatblygu gweithlu iechyd Cymru nawr ac ar gyfer y dyfodol, gan adeiladu dull gwirioneddol amlddisgyblaethol i'n gwasanaeth iechyd.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cyfeiriadau strategol AaGIC yn canolbwyntio ar Gymru Iachach yn ogystal ag amlygu'r egwyddorion ar raddfa dorfol ac unigol. Disgwylir i'r bwrdd hefyd gadw at y saith egwyddor bywyd cyhoeddus Nolan.

Rôl a chyfrifoldebau
Ar y cyd â'r Cadeirydd a'r Uwch Dîm Gweithredol, mae Aelodau Annibynnol y Bwrdd yn gyfrifol am:

- sefydlu a datblygu nodau ac amcanion strategol AaGIC sy'n gyson â'i ddiben cyffredinol ac o fewn y fframwaith polisi ac adnoddau a bennir gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
- sicrhau bod y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael gwybod am unrhyw newidiadau sy'n debygol o effeithio ar gyfeiriad strategol AaGIC neu ar gyrhaeddiad ei dargedau, a'r camau sydd eu hangen i ddelio â newidiadau o'r fath;
- sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol o ran defnyddio arian cyhoeddus; ei fod yn gweithredu o fewn terfynau ei awdurdod statudol ac unrhyw awdurdod dirprwyedig y cytunir arno gyda Llywodraeth Cymru, ac yn unol ag unrhyw amodau eraill sy'n ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus; a'i fod, wrth ddod i benderfyniadau, yn ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;
- sicrhau ei fod yn derbyn, yn adolygu ac yn craffu'n rheolaidd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y wybodaeth ariannol ac ansawdd y gweithredu yn AaGIC; eu bod yn cael gwybod yn amserol am unrhyw bryderon am weithgareddau AaGIC; a'u bod, lle bo'n berthnasol, yn rhoi sicrwydd cadarnhaol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bod camau unioni priodol wedi'u cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon o'r fath;
- dangos safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys drwy ddefnyddio Pwyllgorau priodol i helpu'r Bwrdd i dderbyn sicrwydd a mynd i'r afael â risgiau ariannol a risgiau eraill;
- sicrhau diwylliant cadarnhaol a hyrwyddo gwerthoedd a safonau ymddygiad y sefydliad a'r staff;
- penodi'r Prif Swyddog Gweithredol i'r sefydliad; a
  penodi'r Aelodau Gweithredol i'r Bwrdd.

Manyleb y Person

Meini Prawf Hanfodol
I gael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau a'r sgiliau priodol a phrofiad mewn un o'r meysydd canlynol i fodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer yr apwyntiad:

- cefndir yn y GIG, addysg, neu ofal cymdeithasol yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector
- rhywfaint o brofiad o weithio ar lefel Bwrdd gyda pharodrwydd i ddatblygu'r sgiliau hyn ymhellach — bydd pecyn cymorth yn cael ei ddarparu.

Yn ogystal, dylai fod gennych:

- Dealltwriaeth o'r materion a'r blaenoriaethau sy'n bwysig i Addysg a Gwella Iechyd Cymru a'r gallu i ddeall rôl a gwaith Byrddau;
- Y gallu i ddwyn eraill i gyfrif am eu perfformiad wrth gynnal perthynas adeiladol;
- Y gallu i feddwl yn strategol ac i arfer barn gadarn ar ystod o faterion sensitif a chymhleth;
- Y gallu i ddadansoddi a dehongli gwybodaeth fanwl, er enghraifft cynigion polisi manwl neu wybodaeth ystadegol.
- Y gallu i ddangos dealltwriaeth ac ymrwymiad cadarn i Werthoedd Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr, cynrychiolwyr gweithwyr a rhanddeiliaid.
- Dealltwriaeth ac ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a hyrwyddo arfer cynhwysol.

Y Gymraeg

Mae sgiliau Cymraeg ar lefel 1 ar gyfer darllen ac ysgrifennu a 3 ar gyfer siarad a dealltwriaeth yn cael eu hystyried yn ddymunol ar gyfer y rôl hon.

I'r Aelod Annibynnol, mae Sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol. Fodd bynnag, bydd disgwyl i bob ymgeisydd ddangos ymrwymiad tuag at yr iaith a dangos arweiniad i gryfhau'r ddarpariaeth gwasanaeth dwyieithog o fewn y GIG yng Nghymru

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Mae prif swyddfa AaGIC wedi'i lleoli yn Nhŷ Dysgu, Nantgarw, CF15 7QQ. Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd yn Nhŷ Dysgu yn bennaf. Bydd rhai cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol a hefyd mewn lleoliadau amrywiol ledled Cymru i adlewyrchu swyddogaethau cenedlaethol y sefydliad. Cydnabu AaGIC y gallai fod achosion lle mae angen gweithio o bell, a bydd yn gweithio'n rhagweithiol gydag Aelodau i ystyried ceisiadau a rhoi trefniadau ar waith fesul achos.

Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Ymrwymiad Amser:	Mae'r swydd yn seiliedig ar ymrwymiad sylfaenol o bedwar diwrnod y mis ond bydd hyn yn amodol ar ofynion sefydliadol ac, yn aml, bydd angen rhagor o ymrwymiad.
Deiliadaeth y swydd:	Penodiad cychwynnol o bedair blynedd.
Tâl:	£9,360 y flwyddyn ynghyd â threuliau rhesymol.

.

Cymhwyster

Ni fydd unigolyn yn gymwys i gael ei benodi:

a. os yw wedi ei gael yn euog yn y 5 mlynedd diwethaf yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar (wedi'i gohirio neu beidio) am gyfnod o 3 mis neu fwy;

b. os yw wedi ei wneud yn fethdalwr neu wedi gwneud cyfamod neu drefniant gyda'i gredydwyr, oni bai bod y methdaliad wedi'i ddirymu neu ei ryddhau, bod telerau'r cyfansoddiad neu'r trefniadau wedi'u cyflawni neu fod y ddyled wedi'i thalu'n llawn a phum mlynedd wedi mynd heibio;

c. os yw wedi cael ei ddiswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig yn un o gyrff y gwasanaeth iechyd

d. os yw'n unigolyn y terfynwyd ei gyfnod fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth iechyd

e. os yw'n cael ei gyflogi gan Fwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG neu Awdurdod Iechyd Arbennig neu os yw wedi'i gyflogi gan Fwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG neu Awdurdod Iechyd Arbennig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Dylai ymgeiswyr gofio hefyd fod bod yn aelod o AaGIC yn golygu eu bod wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o Senedd Cymru, o dan Orchymyn Senedd Cymru
Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 (legislation.gov.uk).

Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn cael llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich penodi fel Aelod Annibynnol o AaGIC, a fydd yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad. Bydd eich penodiad yn amodol ar broses gwirio geirdaon, a gynhelir gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru (ar gyfer penodiadau Iechyd yn unig) a gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gynhelir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'n orfodol i ymgeiswyr llwyddiannus fynychu Rhaglen Gynefino GIG Cymru ar gyfer Aelodau Annibynnol a bydd gofyn ichi fynychu'r cwrs nesaf sydd ar gael.

Gwrthdaro Buddiannau
Wrth wneud cais, gofynnir i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'r rôl a'r cyfrifoldebau fel Aelod Annibynnol o AaGIC,

gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddi awdurdod y tu allan i'r rôl yn AaGIC.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael eu drafod yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd gofyn i chi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwiriadau diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â phob ymgeisydd sy'n llwyddo yn y broses sifftio ac yn cael cynnig cyfweliad Bydd hyn yn cynnwys, ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig i, chwiliadau cyfryngau cymdeithasol a Rhyngrwyd. O ganlyniad, efallai y gofynnir cwestiynau i chi yn y cyfweliad mewn perthynas ag unrhyw ganfyddiadau diwydrwydd dyladwy.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i chi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fyrddau Cyrff Cyhoeddus, ac mae'r ddogfen hon ar gael yma:

https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Cefndir

Sefydlwyd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) fel Awdurdod Iechyd Arbennig ym mis Hydref 2018. AaGIC yw'r corff strategol ar gyfer gweithlu GIG Cymru ac mae ei swyddogaethau'n cynnwys:

Gwybodaeth am y gweithlu — AaGIC yw'r ffynhonnell ganolog, gydnabyddedig ar gyfer gwybodaeth am weithlu iechyd Cymru;

Cynllunio'r gweithlu — mae AaGIC yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer cynllunio'r gweithlu, gan weithio gyda byrddau iechyd/ymddiriedolaethau a Llywodraeth Cymru i lunio strategaeth i drawsnewid y gweithlu er mwyn darparu modelau iechyd a chymdeithasol newydd o ddarparu gwasanaethau;

Comisiynu, cynllunio a darparu addysg – Mae AaGIC yn defnyddio ei gyllid i sicrhau gwerth am arian a darparu gweithlu sy'n adlewyrchu anghenion gofal iechyd y dyfodol;

Rheoli ansawdd — Mae AaGIC yn rheoli ansawdd darpariaeth addysg a hyfforddiant gan sicrhau ei fod yn bodloni'r safonau gofynnol, a bod gwelliannau'n cael eu gwneud lle bo angen;

Cefnogi rheoleiddio — mae AaGIC yn chwarae rôl allweddol yn cynrychioli Cymru mewn cysylltiad â rheoleiddwyr, gan weithio o fewn y fframwaith polisi a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae AaGIC hefyd yn ymgymryd â rolau cymorth rheoleiddio penodol, yn annibynnol o Lywodraeth Cymru;

Datblygu arweinyddiaeth — Mae AaGIC yn sefydlu cyfeiriad strategol a darpariaeth datblygu arweinyddiaeth ar gyfer staff o fewn GIG Cymru ar bob lefel;

Gyrfaoedd ac ehangu mynediad - mae AaGIC yn darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gyrfaoedd iechyd a'r agenda ehangu mynediad, gan gyflwyno agenda parhaus i hyrwyddo gyrfaoedd iechyd;

Gwella'r gweithlu — mae AaGIC yn darparu rôl arweinyddiaeth strategol ar gyfer trawsnewid a gwella'r gweithlu, ac yn cyflwyno rhaglen barhaus i gyflawni'r rôl honno o fewn ei swyddogaethau;

Cymorth proffesiynol ar gyfer y gweithlu a datblygu sefydliadol (DS) yn GIG Cymru — mae AaGIC yn cefnogi'r gweithlu proffesiynol a'r proffesiwn DS yng Nghymru.

Rôl y Bwrdd

Sefydlwyd AaGIC fel Awdurdod Iechyd Arbennig ym mis Hydref 2018. Mae gan Fwrdd AaGIC ddeuddeg aelod, sef saith Aelod Annibynnol, gan gynnwys y Cadeirydd, a phum Aelod sy'n Gyfarwyddwr Gweithredol, gan gynnwys y Prif Weithredwr.

Mae Bwrdd AaGIC yn atebol am Lywodraethiant, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol.

Mae'r Bwrdd yn eistedd ar frig ein system lywodraethu a sicrwydd. Mae'n gosod amcanion strategol, yn monitro perfformiad, yn cytuno ar gamau gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn ac yn sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith ac yn gweithio'n iawn. Mae'r Bwrdd hefyd yn cymryd sicrwydd gan ei bwyllgorau a'i archwiliadau ac yn erbyn safonau proffesiynol a fframweithiau rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod systemau rheoli risg a sicrwydd yn gadarn ac yn amddiffynadwy.

Mae'n ofynnol i Aelodau Annibynnol gydymffurfio â'r safonau moesegol uchaf o ran uniondeb a chywirdeb a chydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymddygiad. Dylai Aelodau Annibynnol ddangos drwy eu hymddygiad eu bod yn canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau i ddinasyddion, y sefydliad a'i randdeiliaid.

Mae AaGIC wedi ymrwymo i sicrhau bod amrywiaeth lawn Cymru a'i chymunedau yn cael ei hadlewyrchu yn ei chynlluniau a'i darpariaeth. Er mwyn sicrhau hyn, y bwriad yw y bydd aelodaeth y Bwrdd yn adlewyrchu hyn.

Gwerthoedd Sefydliadol

Fel Bwrdd, disgwylir i bob aelod gynnal ein busnes yn unol â'n gwerthoedd sefydliadol, sef:

- Parch i Bawb
- Gyda'n gilydd fel Tîm
- Syniadau sy'n Gwella:

Rydym yn ymroddedig i gyflunio gweithlu amrywiol sy'n adlewyrchu pobl a chymunedau Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi unigrywiaeth ac amrywiaeth pob unigolyn a chredwn fod hyn yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau sy'n adlewyrchu anghenion pawb yn ein cymuned. Trwy'r ffordd rydym yn cyflawni ein busnes, ein gweithredoedd unigol, ein harferion, ein polisïau a'n gweithdrefnau, ein nod yw bod yn gyflogwr hygyrch a chynhwysol wedi'i ategu gan Arweinyddiaeth Dosturiol ar bob lefel. Rydym yn awyddus i gynyddu cynrychiolaeth pobl o wahanol hunaniaethau, cefndiroedd a diwylliannau ac annog ceisiadau gan grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol.

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. . Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i gefnogi sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Caiff y panel dethol ei gadeirio gan Chris Jones, Cadeirydd AaGIC, Ruth Hall, Aelod Annibynnol o AaGIC a [[i'w gadarnhau]], fel Aelod Annibynnol o'r Panel. Bydd y panel hefyd yn cynnwys aelod o Lywodraeth Cymru.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol, yn y sefyllfa hon, efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn **bodloni'r meini prawf sylfaenol** ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw'r dyddiad cyfweliad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiadau'r cyfweliadau. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiadau hynny, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan system benodi Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni'r meini prawf** a nodir ar gyfer y swydd.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael gwybod yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn llythyr yn eich penodi fel Aelod Annibynnol o AaGIC, a fydd yn cadarnhau ar ba delerau y cynigir y penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, cewch eich hysbysu drwy ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn cymryd llawer o amser ac ymdrech i ymgeisio am rolau ac bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn rhoi manylion pwy y gallech fynd atynt i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch.

Ymholiadau
Os oes gennych ymholiadau am eich cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru. .

Os nad ydych yn gwbl fodlon
Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Yn ogystal, gallwch ysgrifennu at:
Office of the Commissioner for Public Appointments,
G/08, 1 Horse Guards Road, London SW1A 2HQ.